CYFLWYNIAD I GYFARFODYDD GYDA'R TÎM CYDADOLYGU

Diolch i chi am gytuno i gwrdd â'r tîm cydadolygu pan fydd y tîm yn eich ardal, yn edrych ar y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol.

Defnyddiwn y term 'gwasanaethau cymdeithasol' i olygu'r holl wasanaethau y mae'r cyngor yn eu darparu ei hun neu'n trefnu i eraill eu darparu ar gyfer ystod o bobl y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae hynny'n cynnwys plant a phobl ifanc (a'u teuluoedd), pobl hŷn, pobl sydd â phroblem iechyd meddwl, pobl sydd ag anabledd dysgu, a phobl sydd ag anabledd corfforol neu nam ar eu synhwyrau. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn cynorthwyo pobl sy'n ymgymryd â gofalu am eraill, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Erbyn hyn, gobeithiwn y byddwch wedi derbyn eich copi o'r daflen sy'n disgrifio beth sy'n digwydd mewn cydadolygiad. Bwriad y nodyn hwn yw darparu mwy o wybodaeth ar gyfer y bobl hynny fydd yn cyfarfod mewn grwpiau gyda'r tîm cydadolygu.

Y cyfarfodydd

Ein gwaith ni yw darganfod pa mor dda y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eich ardal chi'n diwallu anghenion defnyddwyr a gofalwyr. Golyga hynny gynnig y cyfle i chi ddweud wrthym am y canlynol:

- beth ddigwyddodd i chi;
- beth sy'n gweithio'n dda;

- beth sydd angen newid.

Mae cynnal cyfarfodydd gyda gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn un ffordd o wneud hynny.

Credwn fod y cyfarfodydd hyn yn rhan bwysig iawn o'r adolygiad, yn arbennig os yw pobl yn teimlo eu bod yn gallu siarad yn agored ac yn onest. Bydd o gymorth os yw pawb sy'n cymryd rhan:

- yn gwybod beth i'w ddisgwyl;
- wedi paratoi'n ofalus;
- yn teimlo'n gyfforddus ac yn teimlo'n rhan o'r broses;
- ag unrhyw anghenion arbennig wedi'u bodloni.

Rydym yn gweithio'n agos â'r staff yn y gwasanaethau cymdeithasol i geisio sicrhau mai dyna sy'n digwydd. Nhw sy'n gwneud y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd, weithiau gyda chymorth oddi wrth gymdeithasau gwirfoddol. Fodd bynnag, mae croeso i chi gysylltu â ni os ydych am drafod y trefniadau.

Paratoi ar gyfer y cyfarfod

Byddwn wedi paratoi rhai cwestiynau cyffredinol ynghylch y gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn am wirio peth o'r wybodaeth rydym wedi ei derbyn eisoes. Fe welir rhestr o'r meysydd y gallwn fod am eu trafod a rhai cwestiynau y gellid eu gofyn ar ddiwedd y nodyn hwn.

Trafod eich profiadau

Yn ogystal â gofyn cwestiynau, rydym hefyd am sicrhau eich bod chi'n cael y cyfle:

- i siarad am y materion sydd o bwys i chi;
- i ddweud wrthym am eich profiadau.

Dylech deimlo'n ddigon hyderus i allu siarad yn agored a gonest. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod yn deall na fydd yr hyn fyddwch yn ei ddweud yn gyfrinachol. Gellir defnyddio'r hyn a ddywedir yn y cyfarfod yn ein trafodaethau gyda'r awdurdod lleol, neu ei ddyfynnu yn yr adroddiad terfynol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn enwi neb sy'n rhoi gwybodaeth i ni (oni bai fod yr wybodaeth yn peri i ni bryderu am beryglon i rywun sy'n agored i niwed).

Mae gennym lawn cymaint o ddiddordeb mewn pethau sy'n gweithio'n dda ag yn y pethau hynny sydd angen gwella.

Nodwch na allwn weithredu ynghylch unrhyw gwynion unigol ar eich rhan, er y byddwn yn codi materion sy'n peri pryder gyda rheolwyr y gwasanaethau cyhoeddus.

Gobeithiwn fod yr wybodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol i chi. Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod.

Materion Allweddol

Byddwn yn edrych ar ddau fater allweddol.

1. Pa mor dda y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn diwallu anghenion ar hyn o bryd.
2. Pa mor alluog yw'r awdurdod lleol i gyflwyno gwelliannau yn ansawdd y gwasanaethau hynny.

Golyga hyn ymchwilio i ystod eang o feysydd.

1. Diwallu anghenion unigol

Cael gwasanaeth – pa mor hawdd oedd hi i chi ddarganfod pa wasanaethau sydd ar gael ac i ofyn am y gwasanaethau hynny?

Asesu – Beth ydych chi'n ei feddwl am ansawdd yr asesiad a gawsoch? – A gawsoch chi gymryd rhan yn yr asesu ac a gymerwyd sylw o'ch barn chi? – A fu'n rhaid i chi roi gwybodaeth i lawer o wahanol bobl?

Y gweithiwr cymdeithasol neu'r rheolwr gofal – A oes gennych gynllun gofal? A gafodd ei adolygu a'i newid wrth i'ch anghenion chi newid?

Ystod y gwasanaethau – Ydych chi'n meddwl bod yna ystod dda o wasanaethau ar gael? A gawsoch ddewis ynglŷn â sut yr ymdrinnid â'ch anghenion?

Ansawdd y gwasanaethau – A fu'r gwasanaethau y buoch yn eu derbyn o safon dda? A gawsoch eich trin â pharch wrth i chi dderbyn gwasanaethau cymdeithasol?

Amddiffyn rhag niwed – Ydych chi'n meddwl bod y bobl sydd yn y perygl mwyaf o niwed yn derbyn ymateb brys?

Annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol – Ydych chi'n meddwl bod y gwasanaethau'n cynorthwyo pobl i barhau'n annibynnol? A ddarperir gwasanaethau mewn lleoliadau modern sy'n annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd i fyw bywydau llawnach?

2. Gallu i wella gwasanaethau

Staffio – Ydych chi'n meddwl bod y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau cymdeithasol wedi'u hyfforddi'n dda? – A wnaeth y bobl sy'n gweithio gyda chi argraff dda arnoch chi? – Ydy'ch gweithiwr cymdeithasol wedi newid yn aml?

Cael y gorau o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd – Ydych chi'n meddwl bod yna safonau eglur i gynorthwyo i warantu gwasanaethau o ansawdd da? – A ofynnwyd am eich barn chi ynghylch y gwasanaethau a ddarparwyd neu a drefnwyd?

Cynllunio a phartneriaethau – Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw gynlluniau ar gyfer newidiadau yn y gwasanaethau rydych yn eu derbyn? – A ofynnwyd i chi am eich syniadau ynghylch sut y gellid newid y gwasanaeth er gwell? – Os oes yna newidiadau ar y gweill, a fuoch chi'n rhan o'r broses? Ydy'r gwasanaethau

cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda gwasanaethau eraill (yn cynnwys y gwasanaeth iechyd, adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, cyrff gwirfoddol a'r sector preifat)?

Darparu gwasanaethau – Ydych chi'n ymwybodol pwy sy'n darparu'r gwasanaethau yn eich cynllun gofal? – A gawsoch eich holi ynghylch pa mor dda y mae darparwyr gwasanaethau annibynnol yn bodloni telerau eu contractau? – A ydy'r cydbwysedd yn iawn rhwng gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol, gan gyrff gwirfoddol a gan y sector preifat?

Defnyddio adnoddau (staff, arian, adeiladau ac ati) – A ydy adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol? – A gawsoch brofiad o ddyblygu gwaith, gwastraff neu ddefnydd gwael ar adnoddau?

Arweiniad a diwylliant yn y gwasanaethau cymdeithasol – Ydych chi'n fodlon bod yr adran hon yn un sy'n gallu gweithredu'n hyderus gan roi anghenion defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn gyntaf?

Swyddogaeth y cyngor – Ydy aelodau etholedig yn cymryd diddordeb priodol yn y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau cymdeithasol? – A oes yna berthynas waith dda rhwng y gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau eraill o fewn yr awdurdod lleol (megis addysg a thai)?

Cyffredinol

Beth yw'r pethau ynglŷn â'r gwasanaethau cymdeithasol sydd wir wedi gwneud argraff arnoch? - Beth yw'r uchafbwyntiau y dylem wybod amdanynt?

Ym mha ffyrdd y cawsoch chi eich siomi yn y gwasanaethau cymdeithasol? – Sut gallent wella pethau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr?